# Hannah More 1745–1833

## *Llenor a dyngarwr*

Ganwyd Hannah More ar 2 Chwefror 1745 yn Fishponds, plwyf Stapleton, ychydig filltiroedd i'r gogledd o Fryste. Hi oedd y bedwaredd o bum merch i Jacob More – prifathro ysgol – a Mary. Fe gafodd ei magu mewn teulu cariadlawn a roddai bob cyfle iddi. Wrth draed ei thad dysgodd Ladin a Mathemateg a thrwy'r blynyddoedd pwysleisid y dylent fod yn annibynnol fel merched. Pan oedd yn blentyn dechreuodd farddoni a darllen ei cherddi i'r teulu. Symudodd y teulu i Fryste pan oedd yn ddeuddeg oed lle y sefydlodd ei rhieni ysgol breswyl i ferched yn Trinity Street er mwyn i'w chwiorydd hŷn ei rhedeg. Sefydlasant hefyd ysgol i fechgyn gerllaw yn Stony Hill. Yn y cyfnod hwn dechreuodd Hannah ddysgu Ffrangeg, Eidaleg a Sbaeneg gan barhau ei hastudiaethau Lladin. Erbyn diwedd ei harddegau roedd yn cynorthwyo ei chwiorydd fel athrawes yn yr ysgol. Cyhoeddodd ei gwaith cyntaf ym 1762 sef *The Search after Happiness,* drama ar ffurf cerddi barddonol i ferched lle y mae'n cyfeirio at safle menywod mewn cymdeithas. Gwerthwyd dros ddeng mil o gopïau mewn byr amser. Cynyddodd ei diddordeb yn y theatr a byddai'n ymwelydd cyson â'r King Street Theatre, Caerfaddon.

Ym 1767 dyweddïodd gyda gŵr cefnog o'r enw William Turner o Wraxall ond ni ddaeth dim o hynny ac fe dorrwyd y dyweddïad ym 1773. Ymdynghedodd na fyddai byth yn priodi. Cytunodd i dderbyn blwydd-dâl o £200 gan Turner a fyddai'n rhoi sicrwydd ariannol iddi a chyfle i barhau gyda'i gyrfa lenyddol. Dechreuodd ymweld yn gyson â Llundain lle y daeth i gysylltiad gyda rhai o geffylau blaen llenyddiaeth Lloegr, pobl fel David ac Eva Garrick, Elizabeth Montagu a Joshua Reynolds. Roedd yn parhau i gyfansoddi a chyhoeddodd ddwy faled ym 1776 sef *Sir Eldred of the Bower* a *The Bleeding Rock*. Ym 1775 llwyfannwyd ei drama gyntaf *The Inflexible Captive* yn y Theatre Royal, Caerfaddon. Ddwy flynedd yn ddiweddarach roedd ei drama *Percy* ar y llwyfan yn Covent Garden, Llundain, a daeth llwyddiant mawr iddi yn ariannol ac o ran enwogrwydd. Ond yn raddol fe'i dadrithiwyd gan y byd llenyddol

Llundeinig, yn enwedig wedi methiant ei thrydedd ddrama, a'i holaf, *The Fatal Falsehood*.

Trodd yn awr i ysgrifennu llyfrau a'i llyfr enwocaf oedd *Strictures on the Modern System of Female Education* (1799) lle y dadleuodd yn erbyn pwyslais Jean-Jacques Rousseau a ddarluniai ferched fel dim mwy na chreaduriaid teimladol, a phwyslais Mary Wollstonecraft a anogai ferched i fod yn ffyrnig o annibynnol. Pwysleisiai Hannah More y dylid addysgu merched fel Cristnogion. Y tu ôl i'r pwyslais hwn yr oedd ei daliadau dwfn Cristnogol Efengylaidd. Yr oedd nifer o arweinwyr y cylchoedd llenyddol yn Lloegr ar y pryd yn arddel Cristnogaeth gyda phwyslais Efengylaidd. Cyfaill mawr iddi oedd John Newton, rheithor St Mary Woolnoth, Llundain, a ddylanwadodd yn drwm arni. Anogodd ei chyd-Gristnogion hi i ddefnyddio ei doniau llenyddol i hyrwyddo'r ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth a diwygio moesau. Ysgrifennodd y gerdd *Slavery* ym 1788 er mwyn cefnogi gwaith William Wilberforce a daeth yn gyfaill mawr iddo. Ceisiodd hefyd ddylanwadu ar gylchoedd ffasiynol a bonheddig. Yn wahanol i weinidogion Cristnogol y cyfnod gallai gael mynediad i gartrefi'r aristocratiaid, ac anogodd John Wesley hi i wneud hyn.

Dangosodd hefyd gariad ymarferol tuag at bobl. Wrth weld tlodi enbyd yn Cheddar, nid nepell o'i chartref yn Cowslip Green, sefydlodd hi a'i chwiorydd ysgol i blant y tlodion gyda chefnogaeth Wilberforce. O fewn deng mlynedd roeddent yn cadw deuddeg ysgol wedi eu gwasgaru trwy'r Mendips. Ym 1800 cododd gwrthdaro rhwng offeiriaid lleol a More trwy iddynt ei chyhuddo o gynnal cyfarfodydd Methodistaidd. O ganlyniad i'r Chwyldro Ffrengig a'r ofn y byddai rhywbeth cyffelyb yn digwydd yng ngwledydd Prydain aeth ati i ysgrifennu tractiau rhad er mwyn addysgu'r werin datws. Ysgrifennodd *Village politics: addressed to all the mechanics, journeymen, and day labourers, in Great Britain* (1792) gan 'Will Chip, a country carpenter'. Cyhoeddwyd 114 o dractiau rhwng 1795 a 1798 a gwerthwyd miliwn o gopïau mewn blwyddyn. Yn ystod y blynyddoedd dilynol cyhoeddodd nifer o lyfrau eraill, yn cynnwys *Essay on the Character and Practical Writings of St Paul* (1815). Bu farw yn Clifton ar 7 Medi 1833 ac fe'i claddwyd ym mynwent All Saints, Wrington.